YR

ACT

AM

BWYSO AUR,

A oſodwyd allan

Mewn Trefn YSPRYDOL,

MEWN

DULL o YMDDIDDAN;

Ac a fwriadwyd er mwyn Budd i bob un ag ſydd â dim gantho i wneuthur ag Arian; ac er Lleſhad i'r cyfryw nad y'nt yn ewyllyſio i'w twyllo yn y pethau mwyaf pwysfawr.

Ym mha un yr amlygir

Y Drefn oreu i adnabod pob Twyll, ac i broſi a ſicrhau Pris cywir a chyfreithlon Arian.

Gan *T. C.*

Dwyſder, Diragrithrwydd, Tit. ii. 7.

——*Quid non mortalia pectora cogis*
Auri ſacra fames?—— VIRGIL.

CAERFYRDDIN,
Argraffwyd gan I. Ross, yn Heol-y-Prior. 1775.

RHAGYMADRODD
Y
CYFIEITHYDD.

Gymro Anwyl,

AMCAN yr Awdwr yn ei waith yn danfon i'r Byd yr Ymddiddan hwn mewn Ffordd gyffelybiaethol, oedd i ddangos, nad yw yn ddigonol i ddarllain a deall yr Ysgrythurau, a thynnu allan o honynt y Pethau a ddylem eu credu a'u hymarferyd; ond eu gwneuthur yr unig Reol o Fywyd, o blegyd mai wrth yr Ysgrythurau sanctaidd y cawn ein barnu yn y Dydd diweddaf. Ac fel y mae'r Awdwr, mewn Iaith annealladwy i lawer o'r hen *Frytaniaid*, gwedi dangos yn eglur, mai'r Bibl neu Air DUW yw yr unig *Faen-Prawf*, wrth ba un y dylem brofi Pethau yr y'm i'w credu, yn gystal a'n hymddygiad allanol. Mi a ymdrechais i'w gyfieithu mor belled ag y mae'r ddwy Iaith yn cyttuno â'u gilydd, er mwyn Budd a Lles-had fy Nghyd-wladwyr,

Yr hwn wyf bob amser

yn Ewyllysiwr da iddynt

Y CYFIEITHYDD.

AT Y

DARLLENYDD.

Ddarllenydd tirion,

A Gefaiſt ti erioed yn holloł dy argyhoeddi o'r Canlyniad mawr o'r un peth angenrheidiol? *Yna dy Orfoledd ſydd i gael pob cymmorth i'th ddyſgu i yſprydoli* pob peth *tu ag ddiwygio'r* un peth angenrheidiol *hyn: Darllain yn ganlynol yr Ymddiddan bychan efangylaidd hyn gyd ag Yſtyriaeth; Llafurwaith Brawd anwylaf cariadus yn y Weinidogaeth ydyw, a amcanwyd i ddiwygio yr ACT ddiweddar* am bwyſo yr AUR. *O's yw'r Iaith neu'r Dreſn yn dy foddio di, ſicr yw na's gall y Traethawd ei hun dy anfoddloni. Cofia fod yn yſgrifenedig, am Arglwydd mawr holl Weinidogion ffyddlon,* Na lefarodd efe ond trwy Ddamhegion wrth y Bobl, *Mat.* xiii. 34. *Rhai ſydd yn cael Budd un Ffordd, ac eraill y Ffordd arall. Y Peth ſydd gynhwyſedig yn y Traethawd bychan hwn ſydd fanol a ſicr; a pha beth bynnag f'o Barn rhai mewn perthynas i Ddull yr Ymadrodd* ſydd yma, *yr wyf yn cyfaddef i mi fy hun gael llawer o Bleſer yntho. Ddarllenydd, o's nad wyt*

yn cael, fel yr wyt yn darllain, dy ddrych dy hun mewn rhyw Fan gwedi ei ddesgrifio allan: Ac o's gwel yr Arglwydd anwyl fod yn dda i wenu ar y Cynnygiad hyn gogyfer a'th Wellhad, trwy ei wneud yn fuddiol i'th Enaid, cyflwyna ef i'th Gymmydogion, gweddia dros yr Awdwr, a thros un ſydd bob amſer yn caru i yſgrifennu fy hun, dy ufuddaf Was er mwyn CRIST,

Tottenham-Court Chapel,
Jonawr 5, 1775.

ROWLAND HILL.

A T

RHAGYMADRODD.

Ddarllenydd hawddgar,

MI a dybiais mai'r Peth goreu yw i gymmeryd Dynion bob amſer yn ol eu Tymherau. *Pwyſo Arian* ſydd yn breſennol yn Gangen angenrheidiol i bob Galwad, ac yn brif Ran o'r Ymddiddan ſydd rhwng Dynion; da ſyddai iddynt pan ſyddont yn ymhyraeth â hyn, i yſtyriaid y Dydd anocheladwy hwnnw, ag ſydd yn neſhau bob amſer, pan gaffont eu hunain eu goſod mewn Clorian gywir o Gyfiawnder didoſturi; i ddyrchafu pa un y goſodwyd y Papuryn hwn ar gyoedd. Ond cyn y byddo i Ddynion ufuddhau i bwyſo, y mae 'n rhaid i mi ddiſgwyl i brofi'r Cloriannau.

Yn gyntaf, Yr wyf yn gobeithio y bydd y Matter o'r Ymddiddan hyn yn gyttunol â Rheol fawr pob Gwirioniedd, y BIBL.

Yn ail, O's bydd y Dull i gael ei wrthwynebu; yr wyf yn cyfaddef fy mod yn ofnus o Yſgafnder mawr, ond

y mae Natur y Traethawd yn fy arwain, yr wyf yn gobeithio, am *ronyn* o lwfiedigaeth. Ac

Yn drydydd, O's bydd i neb wrthwynebu y Teſtun ei hun, yr wyf yn eu danfon am Atteb at y goreu o Ddyſgawdwyr, un a fu yn helaeth mewn Damhegion, ac ni ddiyſtyrodd i ddarllain Gwers hyfforddus, hyd yn oed dros *Geiniog Cæſar*, Mat. xxii. 19, 21. Iddo ef yr wyf yn dy orchymyn, Ddarllenydd, ac yr wyf yn Eiddo i ti er ei fwyn ef, y

GOFYNWR.

A C T

A C T

Am bwyſo Aur a ordeinwyd yn ddiweddar,

Wedi ei Hysprydoli.

WRTH *Act* a wnawd yn nheyrnaſiad ein Penllywydd Arglwydd Immanuel, Brenin y nefoedd a'r ddaear, o goffadwriaeth happus, tu ag at rwyſtro yn well bob dichell ymyſg ei garedig ddeiliaid, ac ymddiffyn anrhydedd ei deyrnas, fe amcanwyd, na fyddai i un math o arian efangylaidd a fyddo yn ddiffygiol mewn pwys, neu'n llygredig yn ei rhywiogaeth, fod byth yn rhedegog o fewn llywodraeth ei Fawrhydi. I'r diben hyn, fe welodd ei ardderchoccaf Fawrhydi fod yn gymmwys i oſod allan ei frenhinol gyhoeddiad, i erchi a gorchymyn ei holl garedig ddeiliaid, ſef i'r rhai ſydd yn perthyn (yn fwy enwedig i ſwyddogion ei ardrethi a chaſglwyr ei renti) yn fanol i brofi pob dryll o arian a gynnygir iddynt, ac nid ei dderbyn mewn un modd, ond yn fuan i anffurfio a diſtrywio y cyfryw fath, ond y fydd yn gyfattebol i'r drefn a wnawd ac a appwyntiwyd i'r achos hyn.

Holl

Holl Foneddigion, yn ganlynol, ſy'n cyfaddef eu hunain yn ddyledwyr i'w Penllywydd eu Brenin, ag ſy'n ewyllyſio cael eu harian eu profi a'u llywodraethu; a ddymunir i ddiſgwyl ar dderbynwyr a chaſglwyr ffyddlon ei Fawrhydi a ordeinwyd trwy dref a gwlad, yn eu hamrywiol maſnach-dai o fewn talm y bywyd preſennol; ar eu cyfarfod cyffredinol ſydd yn cael ei gadw wrth orſeddfaingc trugaredd, yn Heol-groes-goch, *Neo-theopolis*, h. y. *Dinas newydd Duw*: Ac a ofynir yma iddynt gymmeryd ſylw, na fydd i arian na fyddo un modd yn ddiffygiol, ac na chawſant eu hiawn ddiwygio a'u llywio, yn gymmeradwy gan dderbynwyr cyffredinol ei Fawrhydi yn ei eiſteddfod diweddaf i'r diben hyn; ond y bydd i bob un ag a ryfygo y pryd hynny i gynnyg y fath arian anghyfreithlon, gael eu nhodi â thragywyddol Tecel, *Dan.* v. 25—27. Ac fel yr wyf fi yn un a anrhydeddwyd gan fy Mrenin i'r ſwydd ardderchog hon, ac yn dymuno, hyd y mae ynof, i ddwyn yn y blaen ei frenhinol ddymuniad; mi a ddygais gydâ mi yn ganlynol fy nghloriannau y ddau Deſtament, pob un yn atteb yn gymmwys i'r llall, ac yn gywir i bwyſo'r filfed ran o un gronyn.—— Fe 'u gwnaed trwy drefniad ei Fawrhydi, ac a argraffwyd â nod y cyſſegr.—Yr wyf yn gobeithio eich bod chwi, foneddigion, ſydd yn addef eich dyled yn breſennol ag ſydd yn ſefyll yma i'r diben hyn, yr wyf yn hyſpyſu i chwi fy mod yn barod o'm calon i dderbyn i mewn deyrnged ei Fawrhydi. *Pro-*

Proffeſwyr. Yr y'ch yn barnu yn gymmwys Mr. *Swyddwr*, yr y'm yn llawen o'r odfa i ddangos ein ffyddlondeb i'n Brenin: attolwg, pa faint yw'ch gofyn?

Swyddwr. Y dyled ſydd ar bob un o honoch yn ddyledus i'n Harglwydd Frenin, yw ffydd iachuſol ac edifeirwch gwirioneddol.

Proffeſ. Yma, Syr, yr wyf yn deall eich bod yn cael yr arian hyn yn dda.

Swydd. O'r goreu Syr; a allaf fi ofyn eich enw chwi?

Atteb. Fy enw yw *Moeſoldeb*; mi a feddyliais na's gallech lai na'm hadnabod, Syr, yſgatfydd nad oes neb yn fwy adnabyddus a chanmoladwy gan bawb nâ myfi; *Gwae chwi pan ddywedo pob dyn yn dda am danoch*, Luc vi. 26.

Swydd. Yn wir, fy nghyfaill, mi a glywais lawer o ſon am danoch, ac yr wyf yn adnabyddus iawn ag un *Criſtion Moeſol*, dyn oneſt yw ef; ond eich wynebpryd chwi ſydd gwbl wahanol, ac ni's gallaf feddwl eich bod yn perthyn iddo.

Moeſ. Yr y'm yn cleimio carenydd, Syr, er ei fod ymhell; er hynny i gyd, nid oes gan ei Fawrhydi un deiliad yn fwy ffyddlon yn ei holl arglwyddiaeth nâ myfi; ac yr wyf yn ſicr na fathwyd erioed ddim gwell arian.

Swydd. Y mae yn rhaid profi eich arian, Syr, byddwch cyſtal a'u dangos i mi.

Moeſ. Yn gyntaf, Fy nghrediniaeth yw hyn, nad oes achos i un dyn i ofni ynnill ffafr neu ewyllys da ei Greawdwr, ac i fod

yn

yn happus pan fyddo marw; o's ymdrech ef yn aſtud ac yn wirioneddol, i ymddwyn yn gyfiawn ac yn gywir tu ag at bob dyn; ac nad yw yn anghofio hefyd i fod yn hawddgar ac yn eluſengar i'w gymmydogion tlawd ac anghenus.

Swydd. Och! Mr. *Moeſoldeb*, ni wna hyn 'mo'r tro! arian hollol ddieithr yw y rhai'n, a ddanfonwyd o *Rufain*, ac a wnaed ym math-dŷ natur, ac nid wyf yn canfod enw Criſt un amſer ar eich arian chwi; yr wyf yn diſgwyl arnoch chwi, Syr, i wybod nad wyf fi yn derbyn unrhyw arian, ond bath pur ei deyrnas ef, nad yw yn angenrheidiol i ni eu pwyſo. Ceiſiwch, 'rwy'n attolygu, ryw fath ſy'n well nâ'r rhai'n. Onid Mr. *Ffurfioldeb* yw'r hwn ſydd gydâ chwi? A welwch chwi fod yn dda i roddi i mi eich arian chwitheu hefyd? Syr.

Ffurf. Yr wy'n gwbl barod. Ni's gallaf fi yn wir ddweud i mi un amſer dybied y byddai ffydd fy nghymmydog da *Moeſoldeb* yn fuddiol iddo; ac mi a ddywedais yn fynych wrtho, fy mod yn meddwl, nad yw oneſtrwydd heb dduwioldeb yn ddigonol; ac felly mi a gymmerais ofal mawr, Syr, i chwanegu at foeſau da fy nghymmydog fawr ſerch i ymarferiad crefyddol; mi a fuais yn ddyfal iawn mewn ymarfer o ddyledſwyddau da, gwrando a darllain pregethau, yn gweddio, yn ymprydio, ac nid oeddwn yn dewis un amſer i fod yn abſennol o'r ſacrament bob mis; ac mewn gwirionedd,

o's

o's un amſer y digwyddai i mi eſgeuluſo un o'r rhai'n, yn eu trefn priodol, yr wyf yn ceryddu fy hun yn llym-doſt, ac yn dyblu'r taſg y tro neſaf gyd â llawn ddiwydrwydd.

Swydd. Y mae'r dryll hyn yn ymddangos yn well i mi nâ'r eiddo Mr. *Moeſoldeb*; ond er hynny yr wy 'n tebyg fy mod yn gweled bai yn ei ymyl ef, yr hyn ſy 'n rhoddi i mi ddrwg-dybiad cryf ei fod wedi ei orchuddio. A oddefwch chwi i mi ei brofi wrth awch y cerfiwr hyn? *h. y.* wrth ymofyniad llym? Yr y'ch yn dweud, Syr, eich bod yn dyblu eich taſg ar bob ommeddiad damweiniol: yna yr wyf yn ofni eich bod yn goſod eich hyder ar y dyledſwyddau hyn, fel pe baent yn eich cynnorthwyo i ynnill ffafr Duw, ac yn ganlynol i hynny yn y nefoedd.

Ffurf. O anwyl Syr, yr wyf yn credu, mai ychydig iawn a ymdrechent i fod yn grefyddol, ond er mwyn ynnill y nefoedd.

Swydd. A welwch chwi! yr oeddwn yn ofni nad oedd yr eiddo chwi ond mettel ddrwg, heb gariad tu ag at Dduw yn y gwaelod; yn awr y mae 'r gorchudd wedi ei ſymmud ymaith, y mae yn ymddangos nad oeddwn yn fy amcan allan oll. Yn wir, Syr, y mae 'n rhaid torri hwn yn chwilfriw. A oes, attolwg, gennych chwi gymmydog agos a elwir *Rhagrith?*

Ffurf. Y mae yma un o'm cydnabyddiaeth a ddaeth gydâ mi, yr hwn y mae rhai drwg-ddynion enllibus yn alw wrth yr enw hyn; ond yn anfynych y mae'n dewis atteb wrth

wrth yr enw; canys y mae'n dweud mai ei enw priodol yw *Llywodraeth Dda*. Fy nghymmydog *Llywodraeth*, y mae'r gwr bonheddig yn ſiarad â chwi.

Swydd. Hwn yw'r unig ddyn wyf fi yn ei feddwl, ond mewn perthynas i'r gwahaniaeth o'u henwau, nid yw ond bach; y mae yr ddau yn tarddu o'r un gwreiddyn, ſef, cariad at y byd, ac ofn dyn.

Rhag. Yr wyf fi yma wrth eich gwaſanaeth, Syr, ac a ddygais i chwi gyſtal dryll o arian ag a baſiodd erioed trwy eich dwylo.

Swydd. Rhowch ei weled ef yr y'm yn erfyn.

Rhag. Yn wir, Syr, mi a doſturiais yn fawr wrth fy nghymmydogion camſyniadol, ſydd yn meddwl ei fod yn ddigonol i gyrraedd ychydig ymarweddiad gweddaidd, neu i fod yn barhaus mewn cylch o *ddyledſwyddau crefyddol*: (etto nid wyf yn meddwl fy mod i fy hun yn ymddifad, ïe o'r cyfryw rai) ond, ymhellach nâ hyn, Syr, yr oedd gennyf farn gywir o holl athrawiaethau'r bibl; ac er yn blentyn, mi a allwn ail adrodd cyfaddefiadau'r ffydd yſgrythurol ar fy nhafod; mi a ufuddhais i holl ordinhadau Criſt, ac yn breſennol yr wyf gwedi uno â chymdeithas o gredinwyr call a diragrith; ac ni ddarfu neb erioed ammeu fy mod yn Griſtion.

Swydd. Y mae wyneb da, yn wir, gan y dryll hyn, ac yn ymdangos yn eglur wych; yr y'ch chwi yn llawn hyder; etto ni's gallaf

drw

fi ddywedyd i mi gael perffaith foddlonrwydd yntho: A oes neb o honoch yn meddwl ei fod yn edrych i feddu bwriad gwyn arno?

Rhag. Pa ham, Syr, mi a'i dangofais ef i lawer iawn, ac ni ddarfu i neb o'r blaen ei ddrwg-dybio ef; ni allaf fi weled pa ham y gwnewch chwi.

Swydd. O's bydd ef yn dda, gyfaill cywir, cymmaint a hynny yn well; yr wyf yn ficr y bydd yn dda gennyf i'w gael ef felly: Pa fodd bynnag, ni fydd yn niweidiol iddo i gael ond ei brofi â'r garreg, fef, *carreg brawf*; yr ydych yn gwybod ein bod yn cael ein cynghori i holi ein hunain. Mr. *Didueddgarwch*, dygwch yma y bibl.

Rhag. Sicr, Mr. *Swydd.* yr y'ch yn bur ofalus; nid wyf fi yn dewis anafu fy arian, a'u gwneud yn anfforddus, fel y gwnaethoch i arian Mr. *Ffurf:* o's nad ydych yn dewis i'w cymmeryd, rhoddwch fy arian i mi drachefn; mi a warantaf i chwi y gwnaf fi i'm harian bafio.

Swydd. Yn wir, gyfaill, y mae'n gofyn i mi fod yn ofalus i edrych beth yr wyf yn ei gymmeryd, fel pan i'm gelwir i roddi i fynu fy nghyfrif; pa beth bynnag ni cheffir yn hollol dda a delir yn ol i'm dwylaw i. Heblaw hyn, ordinhad fanol y Brenin yw, na ddioddefom un math o arian ag fydd ddrwg-dybus i ddyfod i'n dwylaw, heb eu holi yn fanol; a'ch ofn chwi i'w profi fydd yn dyblu ein drwg-dyb am danynt: Yn

ganlynol, na anfoddlonwch, nid wyf ond gwneud fy nyledſwydd. Fe ddaw Mr. *Diddeddgarwch* i mewn yma â'r maen prawf.— Dyma, Syr, ran o'r garreg hyn; ac o's iawn gymhwyſir neu gyfaddaſir hi, a ddatguddia yn fuan pa beth ydyw. *A phe byddai gennyf brophwydoliaeth, a gwybod o honof y dirgelion oll, a phob gwybodaeth; a phe b'ai gennyf yr holl ffydd, fel y gallwn ſymmudo mynyddoedd, ac heb gennyf gariad, nid wyf fi ddim,* 1 Cor. xiii. 2.

Rhag. Hyn yr wyf yn addef yn fuan, Syr; ond y mae gennyf gariad (nid wyf fi yn meddwl yr opiniynau cyffredin hynny am dano) ſef eluſen, neu feddwl yn dda am bawb, ond cariad at Dduw a'n cymmydog, yw'r peth ſydd yno yn ddiammeu yn cael ei ergydio atto.

Swydd. O's felly, ni wn i beth i ddywedyd. *Cyn belled*, y mae yn ymddangos fel aur; ond y mae rhyw beth a brawf hyn. Y mae fy Meiſtr yn cadw *Aquafortis*, neu ddwfr cryf, ſy'n dattod pob mettel ond aur, ag ſy'n ganlynol yn gwbl gyffelyb i helbulon y duwiolion, a pha un y mae ef yn profi ei holl fath cywir; cyffyrddwch ac ef ag ychydig o hwn, ac o's erys ef yn anghyfnewidiol, y mae hynny yn arwydd da; ac o's myga ef, a berwi yn grych-ias, cyfnewidia liw, ac a fyg-dardda, megis y gwna pob gwael fettel; fe fydd yn ſicr yn amheus. Pa fodd, attolwg, y cyttuna yr *Aquafortis* yma â dryll o'ch arian chwi?

Rhag.

Rhag. Nid wyf fi yn eich deall, Syr, ni phrofais i 'mo hono erioed.

Swydd. Pa fodd yr hoffwch chwi gar-char, a thân a chleddyf, er mwyn eich proffes?

Rhag. Och! Syr, yr ydych yn agos fy nychrynu wrth ſiarad fel hyn! y pethau hyn oedd yn perthynu i amſer yr Apoſtolion, a theyrnaſiad greulon *Mari:* Mae criſt'nogrwydd *yn awr* yn cael ei derbyn yn gyffredinol; a'r *grefydd* Broteſtanaidd yw crefydd ein tir.

Swydd. Yn wir, trwy fendith Duw, ar lywodraeth dirion a hynaws, y fath gyfyngderau allanol ſy 'n anfynych yn deimladwy yn y teyrnaſoedd happus hyn: ond credwch fi, fy nghyfaill, y mae yſpryd erledigaeth yn aros yn waſtad hyd heddyw; ac megis yn yr amſeroedd gynt, *Yr hwn a anêd yn ôl y cnawd, a erlidiodd yr hwn a anwyd yn ol yr yſpryd*; yr un yw etto, Gal. iv. 29. Beth a ddywedwch, attolwg, yna mewn perthynas i golledion ac anffawd, gwawd a gwatwor, cywilydd, a dirmyg er mwyn Criſt?

Rhag. Pa ham, Syr, i fod yn eglur, yr wyf yn tebyg mai'r ffordd mwyaf doeth i fi yw gochelyd y fath o's gallaf; ac nid wyf yn meddwl fod crefydd yn gofyn i un dyn fod yn neillduol, ac i daflu ei hun i watworgerdd diangenrhaid. Awdwr mawr criſt'nogrwydd ei hun a dyſtiolaethodd iddo gynhyddu mewn ffafr ar yr un pryd gydâ Duw a dynion. Y mae hyd yn oed crefydd natur

yn ein cymmell ni am ein iechyd, ein meddiannau a'n gair da.

Swydd. Fy anwylyd, Syr, yr wyf yn amgyffred yn eglur y cariad yr ydych yn ymffroſtio arno, nad yw ond llewyrch twyllodrus, ac nad yw eich holl broſſes chwi ond twyll: o's nad yw yn ewyllyſgar i ddioddef anhawſdra bychan a *thaenelliad gwan* o ddirmyg er mwyn Criſt, pa fodd y chwennychai, meddyliwch chwi, i ſuddo mewn môr o dân a gwaed er mwyn ei enw ef? Nid yw eich harian yn aur; ni allaf ei gymmeryd. Bydded i eraill ddwyn yma eu heiddo hwytheu.

Tradd. Dyma fy arian i, Syr; fy enw yw *Traddodiad.*

Swydd. Dodwch eich dryll yn y glorian, Syr.

Tradd. Yr wyf yn credu yn Nuw Dad Hollalluog, Creawdwr nef a daear; ac yn Ieſu Griſt, ei un Mab ef, ein Harglwydd ni, *&c. &c.*

Swydd. Aroſwch, Syr, nid wyf yn ammeu nad yw hwn yn aur da er hyn; chwi a welwch, yn wir, nad aiff ef i lawr.

Tradd. Fy anwyl ddyn! ni ddarfu i mi erioed ammeu nad oedd yr arian yn dda: y mae'n wir, ni phrofais erioed 'mo honynt; ac mewn gwirionedd, pa angenrhaid oedd i hynny? fe fu yr arian yn ein teulu amſer dros gof. Fe roddodd fy mam hwynt i mi yn ddryll llogell, pan oeddwn yn ieuangc iawn; ac mi a'i clywais hi yn dywedyd, mai dyma

dyma arian ei thad a'i thad cu, *&c.* ac yr oeddent bob amſer mewn parch mawr yn y teulu.

Swydd. Felly yna mi a welaf i'r cyffroad hyn ddwyn i oleuni rai *Dryll-Logellau* o hen ffurf. Mae yn drueni fod cymmaint o grefydd yn y byd wedi ei phentyru i fynu, nad yw fuddiol i neb.——Ond, wr ieuangc, pa ham na ddaethoch chwi i brofi eich arian yn gynt?

Tradd. Nid wyf fi yn gwybod, Syr, y dylwn ei ddwyn i'w brofi; ac fe ddarfu i'm mam fy mherſwadio yn daer, ac a ſicrhaodd i mi ei fod yn llawn bwys pan y derbyniodd hi ef.

Swydd. Fe allai hynny, Syr, ond yr y'ch yn gwybod fod pob peth yn treulio allan mewn amſer; ac yſgatfydd gwedi ei dderbyn mor ieuangc, y gallaſech wneud pethau i chwarau â hwynt, ac felly nid rhyfedd iddynt golli eu pwys gydâ chwi. Nid yw crefydd yn cadw ei dwyſder ymhellach nag un neu ddwy genhedlaeth.———Nid oes gennyf ond barn fychan i gadw arian mewn teulu yn y modd hyn, oni bydd i bob meddianydd (pan f'o'n meddwl yn gymmwys) i'w profi, ac o's bydd iddo i'w gael yn ddiffygiol, ei ddwyn i fath-dŷ yr efengyl i'w ail fathu. Y mae'n rhaid i chwi, Syr, wneud hyn cyn y derbyniwyf ef.—Onid yw 'r Arglwyddes hon yn dyfod ymlaen? Yr wyf yn meddwl fod gennyf ychydig adnabydd-

iaeth â hi; onid hon yw Mrs. * *Enthuſiaſm?*

Enthu. Ie, Syr, felly y mae dynion yn gweled bod yn dda i'm galw i.

Swydd. Yr wyf yn meddwl, Meiſtres, mai yn anfynych y gwelais i chwi yn breſennol yn y fath achoſion cyhoeddus a rhai 'n.

Enthu. Yr ydych yn meddwl mewn pregethau, ſacrafenau, a'r rhai cyffelyb, yr wyf yn debyg? o herwydd pa achos, Syr, yr wy'n awr gwedi myned yn rhy bell ymlaen mewn crefydd i ſylwi ar yr egwyddorion cyntaf hyn, y cyfryw elfennau tlawd, a'u gadael hwynt i rai ſydd yn dechreu, a chriſt'nogion gweinion.

Swydd. O fy Meiſtres anwyl! a hyn yw eich barn chwi? Pa hyd, attolwg, y bu felly?

Enthu. O, Syr, ni allaf fi byth anghofio'r dydd na'r awr! hwn oedd amlygiad neilldduol a gefais o'r nefoedd, pa fodd yr oeddwn mewn gorfoledd! yr oeddwn yn tebyg fod myrddiynau o angylion yn fy amgylchu! ac yr o'wn i mor ddiſglair ac un o honynt! O na allaſwn fyw yn dragywydd yno! Yr wyf yn cofio na chyffroais i o'm yſtafell trwy'r dydd.

Swydd. Beth a ddaeth y pryd hynny o'ch holl ofal bydol? pwy oedd yn trin holl orchwylion y teulu? pwy oedd yn cyfarwyddo'r

* Yſtyr y Gair ENTHUSIASM yw Tyb, neu Goel fod un yn cael ei dywys neu ei gyfarwyddo trwy Weithrediadau digyfrwyng yr YSPRYD GLAN.

wyddo'r gweiſion, a phethau eraill o'r un rhyw.

Enthu. O ofal bydol! na ddywedwch wrthyf am neges bydol; nid wyf yn deall y tâl i mi feddwl am y fath bethau:—yr wyf yn gadael hynny i bobl gnawdol.

Swydd. Yn ſicr y mae'r fath grefydd yn afreſymol, ag ſydd yn arwain dynion i eſgeuluſo a dirmygu dyledſwyddau ſanctaidd a moeſol.

Enthu. Rheſwm, Syr, fe ddarfu i mi â rheſwm; mae ffydd uwchlaw rheſwm.

Swydd. Yr wyf yn addef y dylai rheſwm fod yn ddaroſtyngedig i ffydd; ond y mae arnaf ofn nad ydych yn meddiannu un o honynt: ar beth y mae gobaith eich happuſrwydd yn ol hyn yn cael ei ſylfaenu?

Enthu. Chwi a ellwch feddwl am danaf fel y gwelwch fod yn dda; nid wyf yn ammeu nad af fi i'r nefoedd; pe amgen, ni wnaethai Duw'mo honof mor happus eiſoes, trwy roddi i mi y fath ddatguddiadau ac amlygiadau rhyfeddol.

Swydd. Ond a roddwch chwi i mi rydd-did i'w ammeu ef. Ac yr wyf yn ammeu, nad yw'r happuſrwydd yr ydych yn ſiarad am dano yn dyfod oddiwrth Dduw. Oblegyd, (1.) Y mae yn eich arwain chwi i ddiyſtyru ei ordinhadau. (2.) Y mae ymhell oddiwrth weithio ynoch oſtyngeiddrwydd. (3.) Nid yw yn ymddangos ei fod yn tarddu oddi ar ffydd yn Ieſu Griſt, ond oddi wrth ryw dybiau gwag, a llawenydd, a gwein-

gweledigaethau o'r eiddo eich hun. Yn ganlynol, y mae eich happuſrwydd chwi mor yſgafn, fel na thâl ef ddim ei oſod yn y glorian. Cymmerwch ef, yr wyf yn erfyn arnoch, ymaith. O, eich gwas goſtyngeiddiaf, Mr. *Rheſymmoldeb!* y mae yn dda gennyf eich gweled chwi, Syr; a welwch chwi fod yn dda i ddangos i ni eich dryll chwi?

Rheſym. Mi a wnaf hynny, Syr, â'm holl galon; ac yr wyf yn meddwl, Syr, fod yn rhaid i chwi gydnabod y bydd y peth a ddangoſwyf i chwi yn llwyr gyttunol â rheſwm caled a ſylweddol.

Swydd. Ymarferiad uchaf ein rheſwm yw, Syr, i gredu y peth a ddatguddiodd yr holl a'r unig ddoeth Dduw; ac o's bydd eich ffydd chwi yn gyttunol â'r datguddiad hyn, mi a'i derbyniaf ef gydâ llawenydd.

Rheſym. Yr wyf yn credu fod un Duw, Creawdwr pob peth; ac ni all fod un arall ond efe, neu un cyd-radd ag efe. Ac yr wyf yn credu yn Ieſu Griſt, Iachawdwr dynol-ryw, trwy ddyſgu iddynt y ffordd i ynnill ffafr Duw, a thrwy adael ar ei ol berffaith batrwn yn ei fywyd mwyaf ſanctaidd, ac angeu amyneddgar.

Swydd. Yr y'ch yn ymddangos yn bur ochelgar i adrodd eich ffydd; ac yr wyf yn meddwl fy mod yn canfod rhyw beth yn anghyffredin ynthi: a oes dim cyfnewidiad yn yr argraff? Yr wyf yn meddwl na welais i erioed un fath wreiddiol oni fyddai enw'r

brenin

brenin yn argraffedig arno, *Homoouſios*, h. y. o'r un ſylwedd, pan yr wyf yn gweled eich eiddo chwi yw *Homoiouſios*.

Rheſym. Ni allaf fi ddywedyd, Syr, i mi gael un math o adnabyddiaeth o'r ieithoedd hyn.

Swydd. Yna, Syr, a oddefwch chwi i mi i eglurhau i chwi? Y mae yn arferol, chwi a wyddoch, i ddatgan titlau brenhinoedd mewn rhai ieithoedd dieithr: Yn awr, Syr, megis ag y ſylwais, y iawn ditl Ieſu Griſt yw, Ομοουσιος, *Homoiooſios*, h. y. o'r un hanfod neu ſylwedd â Duw'r Tad. Y mae eich eiddo chwi, yr wyf yn deall, gwedi ei yſgrifennu, Ομοιουσιος, *Homoiouſios*, fel Duw Dad, neu, fod o'r un ewyllys ag ef. Y gwahaniaeth, yn wir, rhwng y ddau aur groegaidd hyn, ſydd yn edrych yn fach mewn ſwn, ond yn anfeidrol mewn ſynwyr. Y diweddaf a ellir ei gymhwyſo at angylion a phobl dda. Y cyntaf a ellir ei gymhwyſo yn unig at Iachawdwr gogoneddus, yr hwn ſydd Dduw dros bob peth, yn fendigedig dros dragywyddoldeb.

Rheſym. Ni allaf fi, Syr, ond cydnabod bod Criſt yn Dduw (pe amgen, yr wyf yn gwybod bod yn rhaid i mi wrthwynebu geiriau amlwg yr yſgrythur) a hynny ond rhyw ſut.

Swydd. Mr. *Rheſymmol*, heb ymarferyd geiriau dau ddeall, a chyfrwyſdra, a ydych chwi yn ei oddef ef i fod Ομοιουσιος, *Homoiouſios* o'r un ſylwedd, ac ymhob golygiad, yn ogyfuwch â'r Tad?

Ffurf.

Ffurf. Nag wyf yn wir, Syr, ni oddef Rheſwm i mi wneud hynny: Yr wyf yn addef ei fod yn uwch nâ'r uwchaf o angylion, ac yn agoſach at Dduw ei hun mewn teilyngdod; ac, attolwg, o ba farh ganlyniad mawr a all y llythyren fod?

Swydd. Nid yw'r canlyniad *ddim llai*, Syr, na bod eich dryll chwi wrth ei brofi fel hyn, ond ffug, dwyll, a'ch bod chwi yn gwybod (pa ddaed bynnag y b'o eich mettel chwi) yn hollol yn diſtrywio ei gerddediad. Ond mi a allaf ſicrhau i chwi ymhellach, na ddarfu i mi erioed gwrdd ag un argraff o'r fath hyn, ond yr oedd ef heblaw hyn etto yn ddiffygiol: am ei fod yn ſicr fod pob peth a fathwyd ym math-dŷ yr efengyl yn berffaith, ac nad oes le i wellhad; felly o's bydd i un dyn fathu unrhyw arian newydd ei hunan, y mae 'n rhaid iddo eu llygru ryw ffordd neu gilydd, gogyfer â derbyn un lleſhad oddiwrthynt.

Ffurf. Ni's gallaf fi lai na chymmeradwyo eich rheſymiad chwi yn y cyfan: ond, Syr, pa fodd y profwch chwi nad oes ar yr arian hyn holl nodau arian cywir a chyfreithlon.

Swydd. Gwelwch bod yn dda, Syr, i'w cymharu â'r arian a fathwyd yn nyddiau *Athanaſius*; y mae yma arian ſydd hynach a fathwyd yn ninas *Nice*, *Credo Nicead*, mor gynnar a'r flwyddyn 325. Ac o's amheuwch wirionedd y cyfryw, y mae yma gyda mi y lliw dechreuol ei hun; dyma lle y gwelwch

chwi

chwi, Syr, fod yn yſgrifenedig, Ni thybiodd yn drais (ἁρπαγμὸν) fod yn ogyfuwch â Duw, *Phil.* ii. 6.

Rheſym. Yn wir, ni's gallaf fi lai na chyffeſu nad ydynt hwy ddim yn gwbl gyffelyb i'w gilydd: pa amſer yr yſgrifenwyd y rhai hyn o'm heiddo i?

Swydd. Fe a'u hyſgrifenwyd o amgylch y flwyddyn o oed ein Iachawdwr 1574. Y fold gyntaf a ffurfiwyd i'r fath ffug oedd credo *Arius*; ac ymhlith amryw ddiffygion mawr eraill, fe a ffurfiodd yn aflwyddianus y llythyr hyn yn enw'r Brenin: hwn, ymhen ychydig, a ddaeth mor gywilyddus, fel na's gall mewn un modd baſio rhwng llawer o gydwybodau amheus: rhai blynyddau ar ol hynny, un *Fauſtus Socinus*, mewn rhyw fodd neu gilydd, a ddigwyddodd gael gafael yn y fold hon, a hon a ryngodd bodd yn fawr iddo; ac ar ol iddo ei chael mor gymmeradwy rhwng criſt'nogion yn gyffredinol, fe a'i gwrthododd hi drachefn; ond yn lle ei diwygio, efe a'i gwnaeth yn waeth nag o'r blaen; ac fel ag y bu llawèr o gynhygion gwedi hynny i'r diben i'w gwella a'u gwneud yn dderbyniol, y mae etto yn amlwg i bob dyn doeth, ei bod yn gymmwys fel ag y bu.

Rheſym. O Syr! ni thybiais i y gallaſai y fath ffiloreg gwael ag un llythyr fod mor ddefnyddiol.

Swydd. Fe a all ymddangos yn wael i *rai*, ac yn ganlynol y mae'r fath dwyll yn myned o law i law yn dda ddigon rhwng proffeſwyr, y rhai

y rhai nad oes ganddynt ddeall yſprydol i'w ganfod, neu nad ydynt yn gofalu pa beth a gymmerant; ond yr wyf fi'n ſicrhau i chwi, fe ymddengys o bwys mawr ym mrenhinllys y cyſylldu, p'le y mae y golygiad mwyaf manol, felly nid yw'n beth mor wael ag yr y'ch yn meddwl. Yn awr, Syr, mi a oſodaf o'ch blaen chwi reolau cymmwys i farnu wrthynt, wrth ba rai y gallwch adnabod yn eſmwyth y fath arian twyllodrus oddiwrth argraff dda. Y mae gogoniant y diweddaf yn amgylch llun y Brenin, yr hwn ni all un gelfyddyd i'w ganlyn; felly y mae eich arian chwi yn dwyllodrus a drwg, Mr *Rheſymmoldeb*, fel y cewch weled yn fuan. Ond pwy yw efe ſydd yn dal i fynu ei arian gyd â'r fath law grynedig? Pwy, ond fy anwyl gyfaill *Diragrithrwydd!* Pa ham yr ydych mor ofnus ddyn, i roddi i fynu eich dyled i'ch Brenin?

Dirag. O, Syr, yr wyf yn ofni y byddaf gyfrannog o'r un tynghedfen ac eraill. A welwch chwi fod yn dda i brofi fy narn dlawd ddrylliedig i?

Swydd. Nid wyf fi yn edrych arno ddim gwnaeth o herwydd ei fod yn ddrylliedig: y mae'n hytrach yn arwydd na chafas ei bentyrru, ond a ga's amgylchyniad rhydd, ac a fu yn gyffredin ar waith. A thu ag at eich hannog, mi a allaf ddywedyd wrthych, fy nghyfaill, er y gall ymddangos i rai yn beth dieithrol, mi a gefais yn gyffredinol yr arian

hynny

hynny a ddrylliwyd fwyaf i fod o'r pwyſi trymmaf.

Dirag. Arglwydd addfwyn, nid yw ef yn deilwng i gael ei dderbyn gan fy Arglwydd. O, efe a fu yn raſlawn rhyfeddol yn ei waith yn prynu fy enaid oedd mewn caethiwed oddiwrth rwymedigaeth anioddefol dan dywyſog y tywyllwch, at ba un y gwrthgiliais yn ddrwg: ac a dalodd bris rhyfedd droſof fi, dim llai nâ'i anwyl waed ei hun; efe a adferodd yn rhad i mi bob rhagorfraint a rhydd-did a fforffetais i. Ac ymhellach, efe a addawodd i ddwyn fy holl draul o fy mynediad yn ol i'w deyrnas drachefn. O Arglwydd anwyl! beth yw fy nogn dlawd i! pe b'ai gennyf filoedd o bynnau o aur ac arian; ïe, holl gyfoeth natur gyffredinol, ni fydd ond ffiloreg, efe a ddylai gael ei roeſawi o'r cwbl oll.

Swydd. Y mae hwn yn gyflawn bwys, yr wyf yn gweled yn ddigon amlwg: pa fodd bynnag, ni a brofwn ei ddiragrithrwydd ef maes o law, fy nghyfaill teilwng; pa fodd, tybygwch chwi, y dioddefa y *maen-prawf* ag *Aquafortis?*

Dirag. Mewn perthynas i'r maen-prawf, yr wyf yn cadw un gydâ mi bob amſer, ac yr wyf yn fynych yn rhoddi rhyglîad wrtho, ambell waith, yr wyf yn addef fod hynny yn gweithio amheuaeth ynof, ond etto yn fynych, y mae yn rhoddi llawer o foddlonrwydd ynof. Ac mewn perthynas i'r *Aquafortis*, Syr, mi a'i profais ef yn fynych

wrtho; ac yr wyf yn meddwl ei fod yn difa y llaid ſydd arno, a'r gronynau eraill o ryw-ogaeth arall ſy'n glynu wrtho, ac ni ddeallais i un amſer fod dim colled yn yr aur wrth hynny; ond yn y gwrthwyneb, y mae yn hytrach gwedi ei lanhau a'i lewyrchu: Yn wir, fe ddichon un peth fod, nid oedd fy *Aquafortis* i ond gwan, a'm profiad etto ond yſgafn. Yr wyf weithiau yn ofnus, pe b'ai ein Brenin eiddigus yn gweled bod yn dda i'w drochi yn ddwfn mewn gwlybwr o'r fath a fyddo yn toddi mettel neu ſylwedd galed (y fath oedd ei ddryll hoff ef) mai yn ddrwg y dioddefai 'r profiad.

Swydd. Yn iawn, byddwch ddiolchgar i'ch Brenin, i chwi ſefyll y profiad hyd yn hyn, gadewch yr amſer ſydd yn ol i ewyllys da ei Fawrhydi, ni a gadwn eich dryll chwi (o's y'ch yn gweled bod yn dda) hyd brofiad arall, yr hwn a wnawn maes o law.

Dirag. O ewyllys fy nghalon, Syr, ni ellir chwilio 'mo hono yn rhy fanol; myfi a fyddwn yn anewyllyſgar iawn i gael fy nhwyllo yn y diwedd. Etto, Syr, y mae cyfaill i mi yma, ag ſydd â dryll ganddo gyffelyb i'm heiddo inneu, yn unig y mae'n llawer mwy eglur a llewyrchus, a'i enw yw *Orthodoxy*, neu, *Iawn-gred*. A welwch chwi yn dda i gymmeryd ei arian ef?

Swydd. Yn wir mi a wnaf, gyd â llawenydd; Mr. *Iawn-gred*, gwelwch bod yn dda i'w roddi i mi.

Iawn-gred. Yr wyf yn credu, Syr, nad oes

oes ond un Duw, Creawdwr pob peth: iddo ef greu dyn ar y cyntaf yn berffaith, ond trwy anufuddhau i'w ewyllys, fe a gwympodd i bechod a thrueni: a bod holl ddynol-ryw yn cael eu geni mewn pechod, ac nad oes ganddynt ewyllys na gallu i adgyweirio eu hunain, ac i wneuthur un peth a fyddo yn dda yng ngolwg Duw. Yr wyf yn credu i Dduw, er tragywyddoldeb, roddi nifer i'w Fab i'w prynu, yr hyn a gyflawnodd trwy gymmeryd eu nhatur arno, ac ufuddhau a dioddef yn eu lle, a bod hyn yn cael ei gymhwyfo at eu cydwybodau mewn iawn bryd, trwy ei Yſpryd ſanctaidd, ac yn cael ei dderbyn trwy ffydd. Yr wyf yn credu fod Criſt yn gogyd tragywyddol, ac yn ogyfuwch â Duw ac â'r Yſpryd Glân, *&c. &c.*

Swydd. Dal, Syr, y mae'n llawn bwys! y mae'n myned i lawr yn fywiog: dodwch ef heibio hyd ne's profom ef yn ychwaneg. Yr wyf fi yn meddwl fy mod yn gweled un dyn yma yn rhagor. Beth yw eich enw chwi, Syr, attolwg?

Syml. Fy enw yw *Symlrwydd*, er fod llawer yn fy ngalw yn *Dywyllwch*.

Swydd. Gadewch i mi weled beth ſydd gennych chwi Mr. *Symlrwydd*.

Syml. O, Syr, nid wyf fi yn deall ond ychydig, ac yn gallu dweud llai; pe buaſai gennyf ond hanner gwybodaeth Mr. *Unionfarn*, mi fyddwn yn llawen: Pa un bynnag, yr wyf yn gwybod fy mod yn bechadur

mawr iawn, ac mi a glywais fod Criſt yn Iachawdwr holl-ddigonol, ac yr wyf yn gobeithio fy mod yn gorphwys arno, yr wyf yn dymuno i wneuthur felly.

Swydd. Yr wyf yn gweled nad yw eich dryll chwi ond yn dechreu torri; y mae ein Harglwydd er hynny gwedi ein hawdurdodi ni i wneud un gronyn o lwfiad. O's bydd ef wrth brofiad yn aur pur, mi allaf anturio ei gymmeryd.——Yn awr, Mr. *Diduedd-garwch*, gwelwch fod yn dda i eſtyn i ni y glorian, *Hydroſtatic*.———Wyr boneddigion, y mae yma glorian *Hydroſtatic*, wrth ba un y gellir gwybod yn gymmwys bwys neillduol neu gymhariaethol pob dryll, trwy ei bwyſo ar gylch rhwng *awyr* a *dwfr*, a thrwy gymharu y gwahaniaeth: trwy 'r ffyrdd hyn y gellir ſicrhau pris neu werth priodol pob un, a llawer o dwyll a ellir ei ddatguddio. Y rheol â pha un y mae yn gweithio a oſodir i lawr ym Mat. vii. 20. *Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt.* Yn awr, wyr boneddigion, o's ydych yn gofyn rhagor o foddlonrwydd, yr wyf yn barod i roddi pob peth ſydd reſymmol. Beth a ddywedwch chwi Mr. *Rhagrithrwydd?*

Rhagrith. Yn wir, Syr, mi a wnaethum lawer profiad; yr wyf yn gobeithio nad yw pawb mor amheus a chwi, mi a'i paſiaf ef mi a fentraf ddywedyd.

Moeſoldeb. Syr, yr wyf yn ewyllyſgar i'm heiddo i gael ei broſi etto, er i chwi ei ammeu

ammeu nad yw ond yn arian dieithr, mi a warantaf fod y fettel yn dda.

Swydd. Yn wir, Syr, y mae yn pwyſo'n dda ddigon mewn *awyr*, ac a all dwyllo llawer un anwybodus; ond, Syr, dodwch ef rhwng y geflau hyn, ac yr wyf yn gobeithio i'ch argyhoeddi yn glau, ac i roddi i chwi ddiſgrifiad cywir o'ch arian. Yn gyntaf, Syr, Eich hymarweddiad moeſol, pa wych bynnag, a fwriadir yn unig i ynnill clod gan ddynion. Yn ail, Yr ydych yn beiddio gobeithio i haeddu ffafr Duw wrth eich gweithredoedd da. Och! Mr. *Moeſoldeb*, pa fath olwg frawychus o bres! Ac yn y trydydd lle, O's ydych un amſer yn athriſt o herwydd eich pechodau, yr ydych felly o blegyd ofn uffern. ——Beth a allwn ni alw hwn, ond mettel, pe byddai yn boſſibl, ſydd yn waelach nâ hwynt eill dau. Felly mi a anturiaf ddywedyd nad oes un *gronyn* o aur pur yn eich holl grefydd chwi. Mr. *Ffurfioldeb*, a gaf fi brofi eich arian chwitheu?

Efurf. Nid yw hynny ond gwaſanaeth fach; fe ddarfu i chwi gwbl anafu ei redegogaeth trwy grafu ymaith y gorchudd; etto, o's gwelwch bod yn dda, yr wyf yn chwennych gwybod pa fettel ſydd yn iſaf.

Swydd. Fe all y gorchudd fod yn *aur* a'm a wn i, er ei fod gwedi ei dannu yn deneu iawn. ——Y llall ſydd ryw ddieithr o gyſſylltiad cymmyſgedig, fel y mae yn anhawdd iawn i farnu yn gywir pa beth

yw. Yn awr am eich eiddo chwitheu Mr. *Rheſymoldeb.*

Rheſym. Y mae ef at eich gwaſanaeth, Syr.

Siwydd. Sicr, Syr, nid yw eich arian yn ymddangos i amrywio ond ychydig neu ddim oddiwrth arian Mr. *Moeſoldeb.* Mi a ddywedais wrthych o'r blaen fy mod yn ofni ei fod yn ddiffygiol mewn amryw ffyrdd; ac yn wir, pa fodd y gall fod yn amgen? Eich anghyfaddefiad o Dduw-dod Criſt ſy'n ei anghymhwyſo ef i fod naill ai'n ſanctteiddydd neu'n gyfiawnhad i chwi: y mae'n rhaid yn ganlynol i'ch hyder bob amſer fod ar eich moeſoldeb eich hunan am gyfiawnhad, ac ar eich gallu eich hunan am ſanctteiddiad; ac nid yw yn rhyfedd yna eich bod yn dyfod yn fyrr yn y ddau! Y mae 'r camſyniad hanfodol hyn i chwi yn eich arwain i eraill, mewn trefn i wneud eich dyfais i gyd-ſefyll â'i hunan. Yna yr ydych yn gwadu llygredigaeth gwreiddiol y natur ddynol, a rhad ras Duw, a chyfrifiad o gyfiawnhad Criſt. Yn fyrr, yr y'ch yn ſiarad am griſt'nogaeth, ond mewn gwirionedd, yr ydych ar yr un droedyn a chanlynwyr *Mahomet*, ond fod gennych y rhagorfraint hyn, neu yn hytrach trymhad: fe ddarfu eich Prophwyd chwi roddi o'ch blaen ſiampl mwy rhagorol nâ hyn, ond ni ddarfu iddo eich galluogi chwi yn well i'w dilyn. Mr. *Diragrithrwydd*, yr wyf yn gobeitho y cawn eich eiddo chwi o rywogaeth wahanol.

Dirag.

Dirag. Nid oes dim gennyf i ymffroſtio arno yn rhagor na'm cymmydogion, ac o's oes rhagor o wahaniaeth, y mae hynny yn hollol trwy ras. Yr wyf yn cael amherffeithrwydd aneirif ynof fy hun; ond hyn ſydd raid i mi ddywedyd, pe b'ai yn boſſibl, ni throſeddwn yn erbyn fy nghyfaill goreu, a'm Hiachawdwr, mewn meddwl, gair a gweithred: Ond Och! ar ol i mi wneud yr hyn oll ag a allwyf, y mae yn rhaid i mi gyfaddef fy hun yn *was anfuddiol iawn.*

Swydd. Y mae yn dda i gael eich aur chwi yn gywir trwyddo: y mae eich Arglwydd yn ei dderbyn ef gydâ phleſer; mi a ddymunwn pe gallwn ddweud yr un peth am y rhai eraill.

Dirag. O anwyl Syr, y mae fy Arglwydd yn rhoi anrhydedd rhy fawr i mi:——Nid wyf yn rhoddi dim iddo ond yr hyn a dderbyniais i yn gyntaf oddi wrtho. Yr wyf fi yn gardottyn tlawd anghenus, pechadur gwael gwrthryfelgar. Yr holl ogoniant ſydd ddyledus i'm Harglwydd yn oes oeſoedd.

Swydd. Yr wyf fi o'm calon yn chwanegu *Amen*, Syr. Mr. *Union-farn*, yn awr am eich eiddo chwi.

Union-farn. Syr, yr wyf fi yn meddwl mai y pwynt mwyaf yw ſefydlu crediniaeth gywir; ac nid wyf fi yn gweled dim angenrheidrwydd i fod mor anyſtwyth, a rhy amheus ar bob ffiloreg; ond gadewch i ni arferyd y rhydd-did a bwrcaſodd Criſt i ni,

ac

ac nid i roddi ffordd i yſpryd caethiwed a chyfraith. Ar fy rhan i, Syr, mi a allaf uno ym mhleſerau diniwaid a digrifwch bywyd, ac i fod yn llawen gydâ chyfeillion llawen, a bod yn ddiniwaid ynddo! Y mae yn wir, fod rhai proffeſwyr yn dweud wrthyf, fod fy muchedd yn rhydd ac yn dramgwyddus, ond i fod hynny iddynt eu hunain o's bydd iddynt i ſarhau. Ni thybiaf un amſer fy hun yn rhwymedig i ymgadw rhag achoſion diniwaid i foddhau ychydig broffeſwyr phariſeaidd rhy gywraint.

Swydd. Hyderwch ar hynny, Syr, nid hyn yw'r peth; pa wedd bynnag, nyni a'i profwn ychydig fwy manol.——Y mae arnaf chwant gwybod, pa beth yw'r pethau hynny yr ydych yn alw yn ddiniwaid? A oddefwch chwi eich hunan fod mewn dillad anghymmedrol?

Union-farn. Yr wyf fi yn dewis i gyd-ffurfio ychydig ag agwedd yr amſerau, ac nid i wneud fy hunan yn gywilydd neilldnol.

Swydd. Ni allaf fi ddywedyd fod hyn yn foddlongar. Yr wyf fi yn meddwl ein bod yn darllain, *Na chydymffurfiwch â'r byd hwn*, Rhuf. xii. 2. Yr ydych yn ſiarad am ddiſyrrwch, a ellwch chwi yn fynych fyned i chwareu-dai i ddawnſio, i chwareu cardiau, ac i yrfa cyffylau, *&c. &c.*

Union-farn. Nid wyf fi'n gweled niwaid mewn rhai mwy niweidiol o'r cyfryw, o's iawn

iawn arferir hwynt, ac o's ni chaiff y galon ei chymmeryd i fynu ganddynt.

Swydd. Hynny yw'r gofyniad, Syr, ond ni's gallaf fi amgyffred, pa fodd y gall un fy'n cyrchu i'r fath leoedd ryddhau ei hun oddiwrth y cyfryw bethau; ac o's gallant, gwaharddiad eglur yw i beidio cadw *cyfeillach â gweithredoedd anffrwythlon y tywyllwch*, Eph. v. 11. ond yn *hytrach eu hargyhoeddi hwynt*. Ond yn awr, Syr, am eich ymarweddiad chwi; a allwch chwi gyd-ddwyn ag yfgafnder, cellwair, a burman, *&c.* neu fod yn dyft o hynny mewn eraill, ac heb ei argyhoeddi ef?

Union-farn. Mewn perthynas i lawenydd diniwaid a thymmer dda, y mae'n fuddiol i firioli a bywioccau pobl. Yr wy'n gobeithio na all neb achwyn arnaf am lwon halogedig; ac o's bu eraill yn euog o hynny, nid wy'n attebol droftynt hwy; ac nid wy'n meddwl mai'm neges yw i dreifio eu cydwybodau.

Swydd. O Syr, gwaeth-waeth! Pa fodd y cyttuna hyn â'r gorchymmyn hwn, *Na ferthedd, nac ymadrodd ffol, na choeg ddigrifwch, pethau nid ydynt weddus*, Eph. v. 4. A'r hyn a grybwyllwyd o'r blaen, Yn hytrach *argyhoeddwch hwynt*. Cofiwch, mai *nid* yn unig *yr ynfydion eu hunain, ond fydd gyfaill i'r ynfydion a gyftuddir*, Diar. xiii. 20. Yr wyf yn ewyllyfgar i roddi i chwi ddamwain dêg, ac felly ni a brofwn un dofparthiad yn rhagor. Pa effaith y mae'r byd yn ei gael ar eich calonnau chwi? A ellwch chwi fwynhau fyched

ang-

anghymhedrol ar ei ol ef, fel na thynnir eich ſerchiadau oddiar nefolion bethau? Gwthiwch ddyledſwyddau crefyddol oddiar y ffordd, neu i fynu i ryw gongl; ïe, torrwch un *ſabbath* ei hunan. Beth a ddywedwch chwi am hyn?

Union-farn. Beth, Syr, oni wyddoch chwi fod gennym gyrph ac eneidiau, ac fe ddylai un fel y llall ofalu am danynt; ac heblaw hyn, y mae gennym dylwyth, a'r yſgrythurau, fel y gwyddoch, ſydd yn dywedyd, *ei fod ef, yr hwn nid yw'n darparu dros ei dŷ ei hun, a wadodd y ffydd, a gwaeth yw nâ'r anghredadyn.*

Swydd. Yn iawn, Mr. *Union-farn*, mi a ddylwn fod yn anhawdd gennyf i ddatgan yn bendant; ond yr wyf yn ſicrhau i chwi yr wyf yn drwg-dybio yn fawr y caiff eich dryll chwi ei wrthod gan fy Arglwydd: pa fodd bynnag, da y b'o mewn perthynas i'w ddefnydd; fe ddarfu i chwi i'w lanhau a'i anffurfio yn y fath fodd, fel mai ychydig o'i ddelw ogoneddus ef ſydd yn ymddangos arno. Pa wedd bynnag, ni ddewiſaf i'w gymmeryd yn breſennol, ond a'i gadawaf ef i'r dydd cylafareddol hwnnw, ym mha un y profir gweithred pawb, o ba ryw bynnag y byddont. Ond mewn perthynas i Mr. *Symlrwydd*; y mae eich eiddo chwi yn well nag y mae yn ymddangos: Mr. *Traddodiad* ſy'n aur da, ond y mae yn rhaid ei doddi a'i ail fathu; a gronyn neu ddau o'i ffydd briodol ei hun gwedi ei chwanegu atto, a'i roddi i

mewn

mewn yn ei enw ei hun; am fod ein Brenin ni yn hoffi i gael gweithredoedd dyn ei hun. Ac mewn perthynas i Mrs. *Enthuſiaſm*, ni thal ei harian hi ddim ond eu hoelio i lawr wrth y bwrdd cyfrif. Ac yn awr, wyr boneddigion, gadewch i mi eich cynghori i barottoi eich hunain mewn amſer, megis y daw ein Penllywydd ſydd i'w ofni yn fuan iawn yn berſonol; oddiwrth farn pa un ni bydd appeliad. Ac o's bydd i chwi achwyn am *dlodi*, gogyfer a'ch hannog, mi a allaf ſicrhau i chwi ei fod ef yn cadw *Maſnach-dŷ*, yn *Rhodfa-gros*, yn union gyferbyn a Heollydan *Balchder Yſprydol*, yn ninas *Rhad Ras*; lle y mae arian yſgafn yn cael eu cyfnewid, neu arian newydd eu rhoddi yn rhad.

Wyr Boneddigion,

eich ufudd Was.

TERFYN.

LLYFRAU

Llyfrau Cymraeg,

A argraffwyd, ac ar werth gan I. Ross, yng *Nghaerfyrddin*; gan Mr. William Jones, yn y *Bala*; gan Mr. Beedles, *Pont y Pwl*; gan Mr. Morgan, a Mr. Bethuel Griffiths, yng *Nghaſtell-Nedd*; a chan Mr. Daniel Efans, yn *Abertawe*.

BRITISH MUSEUM

I. Y BIBL Sanctaidd, ynghyd â Nodau a Sylwiadau ar bob Pennod, gan y Parchedig *P. Williams*. Pris 1*l.* 1*s.*

II. Dictionary newydd, y Saeſonaeg o flaen y Cymraeg, gan *W. Evans*. Pris 4*s.*

III. Taith y Pererin. Pris 9*c.*

IV. Tyred a Groeſaw at Ieſu Griſt. Pris 10*c.*

V. Yr Aberth Cymmeradwy, neu Ragoriaeth Calon ddrylliog. Pris 6*ch.*

VI. Y Ffigyſbren anffrwythlon, neu Eſponiad ar Ddammeg y Ffigyſbren diffrwyth. Pris 4*c.*

VII. Myfyrdodau ar y pedwar Peth diweddaf, ſef Angeu, Barn, Nef ac Uffern. Pris 3*c.*

Y Pum uchod gan Ioan Bunyan

VIII. Golygiad ferr ar yr Hanes yſgrythurol, gan *I. Watts*. Pris hanner Coron.

IX. Amryw Hymnau dymunol a phrofiadol, gan *Harri Sion*, gerllaw *Pont y Pwl*. At ba rai y chwanegwyd Pigion o Hymnau, o Waith yr Awdwyr hynottaf yn yr Oes breſennol. Pris 9*c.*

X. Hymnau a Chaniadau yſprydol, yn Saeſonaeg, gan *I. Watts*, ac yn Gymraeg, gan *Dafydd Jones*, Cyfeithydd y Salmau.

eg,
ss, yng
Jones,
y *Pwl*;
Grif-
an Mr.
Nodau
l, gan
15.
o flaen
5.
is 10c.
agor-
ſpon-
wyth.
h di-
ffern.
urol,
fiad-
Pwl.
mn-
n yr
aeſ-
gan